O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2100 (Cy. 226)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Croesfan Lefel Cilyrychen, Llandeilo Road, ger Llandybïe, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Wedi'i wneud *25 Awst 2011*

Yn dod i rym *6 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe – Manceinion (A483) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylai traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd gael ei wahardd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall,**(2)** yn gwneud y Gorchymyn hwn.

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Medi 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Croesfan Lefel Cilyrychen, Llandeilo Road, ger Llandybïe, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2.—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 20.00 o'r gloch ar 6 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *("the length of the trunk road")* yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A483 wrth Groesfan Lefel Cilyrychen, i'r gogledd o Landybïe, yn Sir Gaerfyrddin, sy'n ymestyn o bwynt tuag 20 metr o boptu i'r groesfan a enwyd.